OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

### Addasiad darfodol i adrannau 189 i 191 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**8.**—(1) Hyd nes y daw paragraffau (d) i (g) o adran 2(1) o'r Ddeddf i rym, ac o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff (2), mae adrannau 189 i 191 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) i'w darllen fel pe na bai'r diwygiadau i'r adrannau hynny a wnaed gan baragraffau 33 i 35 o Atodlen 3 i'r Ddeddf wedi cael eu gwneud.

(2) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw bod y methiant busnes yn ymwneud â gwasanaeth o fath a bennir ym mharagraffau (d) i (g) o adran 2(1) o'r Ddeddf a bod y gwasanaeth o fath sy'n parhau i gael ei reoleiddio fel sefydliad neu asiantaeth o dan Ran 2 o Ddeddf 2000.

(**1**) 2014 dccc 4.